Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD IAU, 7 IONAWR 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **RHITH-GYFARFOD** O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR AM **10.00 YB** AR **DYDD MERCHER, 13EG IONAWR, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Emma Bryer** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224029** |
| **E-bost:** | **EBryer@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr*, Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| 2. | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| 3. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.** | |
| 4. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 9FED RHAGFYR, 2020** | 7 - 10 |
| 5. | **CYNLLUN LLEIHAU TRETH Y CYNGOR 2021-22.** | 11 - 20 |
| 6. | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU.** | 21 - 30 |
| 7. | **YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-** | |
| 7 .1 | **ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2020 I MEDI 30AIN 2020** | 31 - 48 |
| 7 .2 | **CYNNIG I LEIHAU'R BROSES BENDERFYNU FEWNOL YNGHYLCH TREFNIADAETH YSGOLION** | 49 - 58 |
| 7 .3 | **DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL AR GYFER AGREGAU – DE CYMRU – AIL ADOLYGIAD (RTS2)** | 59 - 226 |
| 7 .4 | **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN (2018- 2033) - SYLWADAU A OEDD WEDI DOD I LAW A NEWIDIADAU Â FFOCWS.** | 227 - 1382 |
| 8. | **DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:** | |
| 8 .1 | **30AIN TACHWEDD, 2020** | 1383 - 1388 |
| 8 .2 | **21AIN RHAGFYR, 2020** | 1389 - 1400 |
| 9. | **YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-** | |
| 9 .1 | **RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD LOUVAIN ROBERTS** | 1401 - 1402 |


Mae tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio gan bobl drwy gydol y flwyddyn, i nodi gwahanol ddigwyddiadau. Er ei fod yn rhoi llawer o fwynhad i bobl, mae'n gallu achosi cryn dipyn o ofn i bobl eraill ac anifeiliaid hefyd.

Mae’r anifeiliaid yr effeithir arnynt nid yn unig yn dioddef trallod seicolegol ond mae hyn hefyd yn gallu achosi iddynt hunan-niweidio.

Galwaf felly ar Gyngor Sir Caerfyrddin i'w gwneud yn ofynnol i'r holl arddangosfeydd Tân Gwyllt Cyhoeddus o fewn ffiniau Awdurdodau Lleol gael eu hysbysebu cyn y digwyddiad, gan ganiatáu i drigolion

gymryd y rhagofalon angenrheidiol o ran lles eu hanifeiliaid a lles pobl agored i niwed.

Mynd ati i hyrwyddo Ymgyrch Ymwybyddiaeth Gyhoeddus am effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl agored i niwed.  Gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau.

Ysgrifennu at Lywodraeth y DU/Cymru, a'u hannog i gyflwyno Deddfwriaeth i gyfyngu ar uchafswm lefel sŵn y tân gwyllt i 90 dB o ran y rhai sy'n cael eu gwerthu i'r cyhoedd ar gyfer arddangosfeydd preifat.

Annog cyflenwyr tân gwyllt yn lleol i stocio 'fersiwn mwy tawel' o'r tân gwyllt a ddefnyddir ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus ac ati.

## 9 .2 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi rhoi teuluoedd lleol mewn sefyllfaoedd anodd, gan gynnwys tlodi, ac mae wedi tynnu sylw at ansicrwydd bwyd yn ein Sir.

Nid yw llawer o blant sy'n byw mewn tlodi yn Sir Gaerfyrddin yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod eu rhieni yn gweithio neu nad oes gan eu teuluoedd hawl i unrhyw arian cyhoeddus. Prif nodau Llywodraeth y DU o ran credyd cynhwysol yw hyrwyddo gwerth gweithio h.y. bod yr enillion ychwanegol bob amser yn sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r trothwy enillion yn tanseilio'r amcan hwn ac wedi gwneud teuluoedd yn gaeth i dlodi.

Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Lafur Cymru bolisi diogelu trosiannol newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Cafodd y polisi hwn ei greu i sicrhau bod prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yn cael eu diogelu yn ystod cyfnod cyflwyno'r rhaglen credyd cynhwysol. Mae'r diogeliad hwn yn berthnasol i ddisgyblion unigol a bydd yn parhau tan ddiwedd eu cyfnod presennol yn yr ysgol, sef gorffen yn yr ysgol gynradd neu bob cyfnod yn yr ysgol uwchradd. Cyhoeddodd Llywodraeth Lafur Cymru eleni y byddai prydau ysgol am ddim hefyd ar gael yn ystod pob gwyliau ysgol.

Mae'r cynnig yn nodi fel a ganlyn:

- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi'r ymgyrch gan Grŵp Gweithredu Tlodi Plant a'r Cynulliad Pobl i sicrhau bod prydau ysgol am ddim ar gael yn ystod pob gwyliau ysgol.
- Mae'r cynnig yn galw ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ddefnyddio ei gyllid ei hun yn y gyllideb arfaethedig i sicrhau bod prydau ysgol am ddim ar gael i bob teulu sy'n cael credyd cynhwysol neu gredydau treth gwaith yn Sir Gaerfyrddin.

## 9 .3 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD DARREN PRICE

"Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn:

1. cydnabod y ffaith ofidus bod 30% o blant Cymru yn byw mewn tlodi, tra bod dim ond 17% yn cael prydau ysgol am

ddim, yn bennaf am fod eu rhieni mewn swyddi â chyflog isel sy'n eu cymryd hwy dros y trothwy cymhwysedd;

2. nodi bod gan Loegr a'r Alban brydau ysgol am ddim i'r plant lleiaf, gyda phob disgybl yn y dosbarth derbyn, blynyddoedd 1 a 2 yn gymwys, tra nad yw Cymru'n gwneud hynny;

3. galw ar Lywodraeth Cymru i gostio, fel mater o frys, ymestyn prydau bwyd am ddim i unrhyw blentyn mewn unrhyw deulu sy'n cael credyd cynhwysol neu fudd-dal cyfatebol, ac unrhyw blentyn mewn teulu sy'n methu troi at arian cyhoeddus;

4. cytuno y dylai hyn fod yn gam tuag at y nod o ddarparu prydau ysgol am ddim yn gyffredinol, fel y gelwir amdano gan wahanol grwpiau yng Nghymru, gan gynnwys y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (CPAG) a Chynulliad y Bobl".

## 9 .4 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD CEFIN CAMPBELL

**Rhybudd Gynnig Ail Gartrefi/Tai Haf**

"Noder bod 1,118 o gartrefi yn Sir Gâr yn cael eu diffinio fel ail gartrefi. Y diffiniad o ail gartref yw eiddo nad yw'n unig neu brif annedd i'r perchennog.

Noder yn ychwanegol bod cynnydd diweddar wedi bod ar draws Cymru yn y nifer o dai sy'n cael eu prynu fel ail gartrefi neu dai gwyliau i'w rhentu neu osod fel AirBnB (gan gynnwys Sir Gâr). Mewn rhai ardaloedd mae cymaint â 40% o'r stoc tai yn ail eiddo. O ganlyniad mae pobl leol (pobl ifanc yn arbennig) yn ei chael hi'n anodd os nad yn amhosibl i brynu eiddo gan eu bod yn aml yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai. Mae hyn yn amlwg yn cael effaith niweidiol ar ddemograffi'r ardal, cydlyniad cymdeithasol a'r iaith Gymraeg.

Er bod Cyngor Sir Gâr yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ychwanegu cynnydd bychan o 1% ar y Dreth Trafodion Tir ar y sawl sy'n prynu ail gartref nid ydym yn credu bod hwn yn mynd yn ddigon pell i ateb yr argyfwng tai sy'n wynebu rhai o'n cymunedau gwledig. Rydym felly'n gofyn i Lywodraeth Cymru i:

- Newid deddfau cynllunio i sicrhau bod rhaid cael caniatâd cynllunio cyn newid eiddo annedd cynradd i ail-gartref / llety gwyliau;
- Caniatau i awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â'r gymuned leol, i osod trothwy ar y nifer o ail gartrefi ym mhob ward, a defnyddio cytundebau Adran 106 i atal cartrefi newydd rhag cael eu defnyddio fel ail gartrefi mewn wardiau sydd â chanran annerbyniol o ail gartrefi;
- Cyflwyno system o drwyddedu ar gyfer rheoli'r broses o droi eiddo preswyl yn uned fasnachol megis uned wyliau/tŷ gwyliau neu AirBnB;
- Cau'r bwlch sy'n caniatau i ail gartrefi i gael eu cofrestru fel busnesau er mwyn optio allan o dalu trethi domestig a Threthi

Cyngor, a chymryd mantais o ollyngdod trethi busnes;
- Cyflwyno deddfwriaeth i gynyddu ymhellach Treth Trafodion Tir (LTT) pan yn prynu ail gartrefi.

Unwaith y byddai'r newidiadau polisi hyn yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, byddai Cyngor Sir Gâr yna'n ystyried codi'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi gan o leiaf 200%".

**10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

**11. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU ((NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

**12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

**12 .1 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 23AIN TACHWEDD 2020**

**12 .2 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 2AIL RHAGFYR 2020**

**12 .3 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 3YDD RHAGFYR 2020**

**12 .4 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 11EG RHAGFYR 2020**

**12 .5 PWYLLGOR SAFONAU - 14EG RHAGFYR 2020**

**12 .6 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGLYCHEDD - 14EG RHAGFYR 2020**

**12 .7 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 15FED RHAGFYR 2020**

**12 .8 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU AC ADFYWIO - 17EG RHAGFYR 2020**

**12 .9 PWYLLGOR ARCHWILIO - 18FED RHAGFYR 2020**

**12 .10 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD - 22AIN RHAGFYR 2020**